# Cynllun Gweithredol 2025-2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales



# Cynnwys


## 3 Amdanom Ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru.

## 4 Rhagair

Mae'r Cynllun Gweithredol hwn yn mlinellu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu rydym wedi eu gosod i ni ein hunain i gefnogi'r broses o gyflawni ein gwaith.

## 5 Blaenoriaeth 1

Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt.

## 6 Blaenoriaeth 2

Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg.

## 7 Blaenoriaeth 3

Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd.

## 8 Blaenoriaeth 4

Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.

# Amdanom ni



Ein diben yw:

Sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.



Rydym yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru.

Rydym yn arolygu gwasanaethau'r GIG yng Nghymru.



Rydym yn cynnal rhaglen o adolygiadau er mwyn edrych yn fanwl ar faterion cenedlaethol neu faterion mwy lleol.

Rydym yn monitro pryderon ac atgyfeiriadau diogelu.



Rydym yn cymryd camau rheoleiddio er mwyn sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd annibynnol cofrestredig yn bodloni gofynion deddfwriaethol.



Rydym yn argymell gwelliannau, di-oed a thymor hwy, i wasanaethau'r GIG a gwasanaethau gofal iechyd annibynnol.

Ein nod yw:

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno.



Mae gennym dîm o 87 o aelodau o staff, sy'n gweithio ledled Cymru i gefnogi ein swyddogaethau a gwneud ein gwaith sicrwydd.

Mae gennym dîm o adolygwyr cymheiriaid arbenigol sy'n cael eu recriwtio'n barhaus gennym i ddarparu gwybodaeth arbenigol, gyfredol am wasanaethau a safonau ansawdd.



Mae gennym arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth meddyg a benodwyd i roi ail farn.



Mae gennym banel o Adolygwyr Profiad Cleifion ac Arbenigwyr drwy Brofiad i nodi llais cleifion allan yn arolygu.

# Rhagair

## Croeso i'n Cynllun Gweithredol ar gyfer 2025-2026.



**Alun Jones**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

**"Bydd ein rhaglen arolygu a sicrwydd yn hyblyg ac yn ymatebol o hyd, gan sicrhau ein bod yn gwirio'r gwasanaethau cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir."**

Yn Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), ein rôl yw gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn cael gofal iechyd diogel o ansawdd uchel. Rydym yn gwneud hyn drwy wrando ar gleifion a staff gofal iechyd, arolygu a rheoleiddio gwasanaethau, a gweithio gydag eraill i ysgogi gwelliannau ystyrlon.

Mae ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2025-26 yn adeiladu ar sylfeini cryf ein strategaeth bresennol yr ydym wedi ei hymestyn am flwyddyn arall. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau allweddol sy'n ein helpu i gyflawni ein nod o wella gofal iechyd i bawb yng Nghymru.

### Ein Dull yn 2025-2026

Byddwn yn rhoi dull gweithio cytbwys seiliedig ar risg ar waith, gan flaenoriaethu meysydd sy'n peri'r risg fwyaf i ddiogelwch cleifion. Bydd ein rhaglen arolygu a sicrwydd yn hyblyg ac yn ymatebol o hyd, gan sicrhau ein bod yn gwirio'r gwasanaethau cywir, yn y lle cywir, ar yr adeg gywir. Byddwn yn parhau i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol, gan gynnwys ein gwaith o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), a'r rheoliadau gofal iechyd annibynnol.

Rydym yn deall bod amrywiaeth eang o wasanaethau yn ymwneud â'r broses o ddarparu gofal iechyd, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod ein gwaith yn adlewyrchu'r dirwedd gofal iechyd ehangach, gan ganolbwyntio ar ansawdd y gofal yn gyffredinol. Byddwn hefyd yn atgyfnerthu ein ffocws ar brofiadau pobl o gymunedau amrywiol, gan herio anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal iechyd a chanlyniadau gofal iechyd.

### Addasu i Risgiau sy'n Dod i'r Amlwg

Mae'r dirwedd gofal iechyd yng Nghymru yn esblygu'n barhaus, ac mae'n rhaid i ni esblygu ar yr un pryd. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi datblygu modelau sicrwydd ac arolygu mwy hyblyg sy'n ein galluogi i addasu'n gyflym i risgiau sy'n dod i'r amlwg. Byddwn yn parhau i fireinio'r dulliau hyn gan ddefnyddio dealltwriaeth a chydweithio â phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â'r risgiau mwyaf i ddiogelwch cleifion.

Fel rhan o hyn, byddwn yn moderneiddio'r ffordd rydym yn rhannu ein canfyddiadau a'n gwybodaeth, gan wneud yn siŵr y gall darparwyr gofal iechyd, gwneuthurwyr polisïau, a'r cyhoedd weld ein hawgrymiadau a gweithredu arnynt. Drwy atgyfnerthu ein proses ymgysylltu a chyfathrebu, ein nod yw ysgogi gwelliant ym mhob rhan o'r system gofal iechyd.

### Buddsoddi yn Ein Pobl

Ni fyddai hyn yn bosibl heb ein gweithlu ymroddedig a medrus. Dros y flwyddyn nesaf, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein staff, gan sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu gwaith a'u bod yn cael cymorth i wneud hynny. Byddwn hefyd yn gwella ein prosesau mewnol, gan ymwreiddio diwylliant o ddysgu parhaus a gwella ansawdd yn fewnol.

### Edrych Tuag at y Dyfodol

Mae pobl wrth wraidd popeth a wnawn, ac rydym yn ymrwymedig i wrando, dysgu a gweithredu er mwyn gwella gofal iechyd yng Nghymru. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn parhau i addasu, cydweithio, a herio ein hunain i fod y sefydliad gorau posibl.

Rydym yn croesawu adborth ac ymgysylltiad gan bawb sy'n rhannu ein hawydd i helpu i greu system gofal iechyd o ansawdd uwch sy'n fwy diogel a theg. Os oes gennych adborth ar wasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, cysylltwch â ni.

Gyda'n gilydd, gallwn helpu i greu system gofal iechyd o ansawdd uwch sy'n fwy diogel a theg i bawb.

**Alun Jones**
Prif Weithredwr
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

# Blaenoriaeth 1

## Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt.



| Camau Gweithredu Strategol |
|---|
| Byddwn yn ystyried ansawdd y gofal a ddarperir i bobl yn ystod eu cyfnod ar lwybr clinigol. |
| Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i wrando ar bobl wrth iddynt fynegi'r hyn sy'n bwysig iddynt yn ystod eu taith gofal iechyd. |
| Byddwn yn adeiladu ar ein dull o archwilio'r gofal a ddarperir mewn ysbytai a'r tu allan iddynt, gan gydnabod bod llawer o bobl yn cael gofal yn y gymuned. |

| Camau Gweithredu 2025-2026 |
|---|
| Cyflawni gweithgareddau rheoleiddio a sicrwydd ar draws y sector gofal iechyd annibynnol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a rheoliadau. |
| Cynnal rhaglen sicrwydd ac arolygu seiliedig ar risgiau yn y GIG, wedi'i llywio gan wybodaeth. |
| Ymgymryd â gwaith sicrwydd o fewn gwasanaethau gofal iechyd i droseddwyr, gan weithio gydag arolygiaethau a rhanddeiliaid eraill fel y bo'n briodol. |

# Blaenoriaeth 2

## Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg.



| Camau Gweithredu Strategol |
|---|
| Byddwn yn adeiladu ar y modelau gwaith sicrwydd ac arolygu hyblyg y gwnaethom eu datblygu yn ystod y pandemig, gan ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i'n helpu i gynnal ein gwaith. |
| Byddwn yn defnyddio ein swyddogaeth gwybodaeth fewnol a'n gwaith gydag eraill i lywio ein gwaith tuag at y meysydd sy'n wynebu'r risg fwyaf. |
| Byddwn yn adeiladu ar ein dulliau ymgysylltu, er mwyn i ni allu cyfleu ein negeseuon yn gyflym i ysgogi gwelliant. |

| Camau Gweithredu 2025-2026 |
|---|
| Adolygu'r broses ar gyfer rheoli pryderon a fynegir i ni mewn perthynas â darparwyr gofal iechyd. |
| Adolygu prosesau hysbysiadau statudol er mwyn sicrhau canllawiau cliriach a threfniadau goruchwylio rheoleiddiol cryfach. |
| Datblygu prosesau i gasglu a llunio gwybodaeth am wasanaethau mewn modd systematig yn seiliedig ar y risgiau i gleifion. |
| Sicrhau bod ein prosesau risg ac uwchgyfeirio mewnol yn arwain at weithredu lle mae pryderon ynghylch safonau diogelwch ac ansawdd. |
| Monitro cynnydd ac effaith ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar y Cyd. |
| Datblygu strategaeth pedair blynedd newydd ar gyfer AGIC, sy'n ystyried datblygiadau deddfwriaethol a pholisïau allweddol sy'n effeithio ar ofal iechyd yng Nghymru. |

# Blaenoriaeth 3

## Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd.



| Camau Gweithredu Strategol |
|---|
| Byddwn yn gweithio gydag eraill i atgyfnerthu ein dealltwriaeth o'r materion sy'n effeithio ar wasanaethau gofal iechyd a'r bobl a'r cymunedau sy'n eu defnyddio. |
| Byddwn yn ystyried yn benodol yr heriau y mae grwpiau lleiafrifol yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd, gan ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon er mwyn helpu i herio anghydraddoldebau gofal iechyd drwy ein gwaith. |
| Byddwn yn adeiladu ar ein cydberthnasau gwaith â phartneriaid er mwyn i ni gynyddu'r effaith a gawn ar ansawdd y gofal iechyd a gaiff ei ddarparu i bobl yng Nghymru. |

| Camau Gweithredu 2025-2026 |
|---|
| Rhoi dull newydd ar waith ar gyfer ymgysylltu â Byrddau Iechyd y GIG yng Nghymru. |
| Gwella ac amrywio'r dulliau a'r adnoddau a ddefnyddir i rannu canfyddiadau a gwybodaeth â rhanddeiliaid, darparwyr gofal iechyd a'r cyhoedd. |
| Gwella trefniadau cydweithio ag asiantaethau partner er mwyn cyflawni rôl AGIC o ran sicrhau ansawdd gwasanaethau cadw iechyd meddwl ac anableddau dysgu yn effeithiol. |
| Gwella prosesau i ddarparu ein gwasanaeth Meddyg a Benodwyd i Roi Ail Farn mewn lleoliadau Iechyd Meddwl. |
| Atgyfnerthu trefniadau cydweithio a meithrin partneriaethau newydd â rhanddeiliaid allweddol i rannu gwybodaeth am ddiogelwch cleifion a risgiau i gleifion. |
| Ymgysylltu â Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid AGIC, a'i ddatblygu, er mwyn helpu i lywio ein gwaith a dylanwadu arno. |
| Cydweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru i adolygu'r dull newydd ar gyfer cynnal arolygiadau ar y cyd o Dimau Iechyd Meddwl Cymunedol a Thimau Anableddau Dysgu Cymunedol. |

# Blaenoriaeth 4

## Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



| Camau Gweithredu Strategol |
|---|
| Byddwn yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o feithrin sgiliau a gwybodaeth ein staff. |
| Byddwn yn adeiladu ar y diwylliant dysgu a roddwyd ar waith gennym, gan sicrhau bod prosesau gwerthuso a myfyrio yn rhan greiddiol o'n gwaith. |
| Byddwn yn rhoi ein strategaeth llywodraethu ansawdd ar waith mewn ffordd sy'n sicrhau ei bod wrth wraidd popeth a wnawn. |

| Camau Gweithredu 2025-2026 |
|---|
| Parhau i atgyfnerthu ac adeiladu ar sesiynau gwersi a ddysgwyd i'r staff, gan fyfyrio ar ein gwaith a'i effaith. |
| Parhau i ymwreiddio prosesau ansawdd ym mhob rhan o AGIC i sicrhau bod ffocws ar welliant parhaus. |
| Adolygu ac atgyfnerthu ein dull presennol o recriwtio, cadw, ac ymgysylltu ag adolygwyr allanol. |
| Rhoi cyfleoedd datblygu a dysgu penodol i staff er mwyn gwella perfformiad, darpariaeth a llesiant. |

# Adnoddau


## Yn unol â sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, rydym yn disgwyl y byddwn yn wynebu pwysau cyllidebol yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae gennym gyllideb o oddeutu **£5.9m** ar gyfer 2025-2026.

Mae gennym swyddi cyfwerth ag oddeutu **87** o aelodau o staff llawn amser yn ogystal â phanel o dros **150** o adolygwyr cymheiriaid arbenigol.

Mae gennym hefyd arbenigwyr ym maes Gweinyddu'r Ddeddf Iechyd Meddwl a phanel o Seiciatryddion sy'n darparu ein gwasanaeth Meddygon a Benodwyd i Roi Ail Farn (SOAD). Mae gennym **30** o Adolygwyr Profiad y Claf ac Arbenigwyr drwy Brofiad sy'n gweithio gyda ni ar arolygiadau er mwyn casglu barn cleifion.

| Tîm | Swyddi |
|---|---|
| Gwasanaethau Rheoli Busnes, Digidol a Chorfforaethol | 20 |
| Cyngor Clinigol (gan gynnwys y gwasanaeth meddygon a benodwyd i roi ail farn) | 7 |
| Arolygu | 22 |
| Partneriaethau, Gwybodaeth a Methodoleg | 12 |
| Rheoleiddio ac Uwchgyfeirio | 17 |
| Uwch-swyddog Gweithredol | 3 |
| Strategaeth a Chyfathrebu | 6 |
| **Cyfanswm** | **87** |



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Cysylltwch â Ni

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Drwy e-bost: AGIC@llyw.cymru
Dros y ffôn: **0300 062 8163**

www.agic.org.uk

Dewch o hyd i ni ar:

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51354, ISBN digidol 978-1-83715-630-6
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg